Cylchlythyr
Ysgol Ieuan Gwynedd

Tymor y Gwanwyn 2013

Dawns
Bu plant CA2 yn cymryd rhan mewn cyfres o wersi dawnsio gyda disgyblion Ysgol Brithdir o dan arweiniad Cwmni Dawns i Bawb. Buom yn dysgu sut i ddawnsio ar ffurf dawns Indiaidd a chafwyd cyfle i ddysgu rhagor am y wlad dros gyfnod o 5 wythnos gan greu dawns gyfan erbyn hanner tymor.

Rygbi
Bu Dion Jones o'r WRU yn cynnal sesiwn rygbi gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Ymunodd ysgolion Brithdir a Machreth gyda ni yn y weithgaredd. Bydd rhagor o sesiynau ar ôl y Pasg er mwyn paratoi at dwrnament yn ystod Tymor yr Haf gynhelir ar y Marian.

Tan y Bwlch
Cafodd Blwyddyn 5 a 6 ddeuddydd gwerth chweil ym Mhlas Tan y Bwlch dan arweiniad medrus Ann Thomas. Aethom i fryngaer Tre'r Ceiri a dysgu am amgylchiadau byw y Celtiaid. Buom hefyd yn dysgu am fywyd a diddordebau Mr a Mrs Oalkey, perchnogion y plas, a'u dylanwad ar yr ardal. Daeth Benji draw atom i ddangos ei gasgliad o adar ysglyfaethus ar ôl swper ac roedd yn hynod ddifyr cael eu gweld mor agos.

Ar yr ail ddiwrnod treuliom fore gwyntog ar draeth Harlech yn ymchwilio i gynefin y traeth a chael cyfle i ddosbarthu cregyn a chreaduriaid y môr. Dysgom am y twyni tywod a sut mae'r ardal yn warchodfa natur sydd angen gofal arbennig.

Ar ôl dychwelyd i'r plas cawsom weithdŷ celf dan arweiniad Ann Thomas cyn dychwelyd yn flinedig ond yn llawn profiadau gwych i'r ysgol.

Gŵyl Sportshall
Aeth tîm o'r ysgol i Ŵyl Athletau Sportshall i'r Ganolfan Hamdden yn Nolgellau. Cawsant gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau trac, taflu pêl, gwaywffon a neidio ac roedd ymdrech pob un yn ganmoladwy dros ben.

Y Cyfnod Sylfaen
Bu'r disgyblion yn gwneud gwaith ar y thema cartrefi. Buont yn y pentref yn edrych ar y gwahanol fathau o dai oedd yno. Hefyd, buont yn edrych o amgylch y tai newydd ar Stâd y Wern. Diolch i Mr Hughes am hynny.
Daeth Mrs Griffiths atom hefyd i sôn am ei chartref ers talwm. Cafodd y disgyblion fwynhâd mawr yn chwarae rôl golchi dillad yn y tŷ ers talwm gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd y disgyblion.

Y Cyfarfod Bach
Cafwyd Cyfarfod Bach llwyddiannus eto eleni. Bu'r holl blant yn brysur yn paratoi ar gyfer amrywiaeth o gystadlaethau ac mae wastad yn braf cael llwyfan i'w talentau yn lleol.

Ras Dal i Fynd

Aeth Llio, Tesni a Cerys i Goed y Brenin i gymryd rhan yn y ras trawsgwlad Dal i Fynd. Bu Cerys yn llwyddiannus iawn a derbyniodd gwpan am ddod yn 3ydd ymhlith merched Blwyddyn 3. Llongyfarchiadau mawr i ti Cerys.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth. Gwnaeth pawb eu gorau glas ac rydym yn hynod falch o lwyddiant Lois Wyn Hughes fydd yn cystadlu ar yr unawd i blant Blwyddyn 3 & 4 yn Sir Benfro ddechrau Mehefin. Cawsom gryn lwyddiant yn yr Eisteddfod Rhanbarth gyda nifer o gystadleuwyr yn cyrraedd y llwyfan sef Erin Pennant a Lois yn llefaru, Llio a Lois ar y ddeuawd, parti unsain, côr a pharti llefaru. Hefyd derbyniodd Llio Emlyn, Llio Wyn Hughes ail wobr am waith tecstiliau, 2 grŵp gyda'u gwaith Dylunio a Thechnoleg ac aeth arteffact Huw, Ieuan, Jack a Cerys i'w feriniadu yn y Genedlaethol.

Pentre Peryglon

Ymunodd Llio Wyn â disgyblion Blwyddyn 6 Llanelltyd, Brithdir, Friog a Dolgellau ar daith i Bentre Peryglon yn Nhalacre ger Fflint. Cafwyd diwrnod hynod ddefnyddiol yn dysgu am beryglon mewn amrywiol sefyllfaoedd megis yn y cartref, yn y siop, wrth deithio, ar y ffordd fawr, ar y traeth ac yng nghefn gwlad. Rhanwyd lawer o negeseuon pwysig am ddiogelwch ac fod modd osgoi damweiniau drwy fod yn ofalus a meddwl am gadw ein hunain yn saff.

Sioe Wyddoniaeth
Bu CA2 yn Ysgol Machreth mewn gweithdŷ dan ofal Techniquest. Cawsant nifer o weithgareddau yn eu helpu i ddysgu am blanedau a thrydan drwy gasglu gwybodaeth i ddatrys problemau. Cawsant gyfle i wneud cylched ddynol a cheisio gorestgyn problemau trydanol at wahanol ddibenion.

Ysgol Ieuan Gwynedd Newsletter

Spring Term 2013

Dance
KS2 pupils took part in a series of dance lesson at Ysgol y Gader with pupils from Ysgol Brithdir. The were learning about new dance techniques presented by the dance company Dawns i Bawb. We learned about Indian dance forms and learned a lot about the country by creating a dance over 5 weeks.

Rygbi
Dion Jones from the WRU came to hold a rugby taster session at the school with Years 5 a 6. Pupils from Ysgol Brithdir and Machreth joined us. More sessions are planned after Easter in order to prepare for the rugby tournament held during the Summer term.

Tan y Bwlch
Years 5 and 6 spent two fabulous days at Plas Tan y Bwlch organised by Ann Thomas. We visited an ancient Celtic hillfort, Tre'r Ceiri and learned about the Celtic way of life. We also learned about Mr and Mrs Oalkey's life and interests since they were the original owners of the plas. We also learned about their influence on the area. Benji came to the plas after we had supper to show us his collection of birds of prey and it was fascinating to see them so closely.

We spent the morning of the second day on a windy beach in Harlech studying the beach's habitat and we were able to organise shells and sea creatures. We learned about the sand dunes and how the area is designated as a nature reserve that needs special care and attention.

After returning to the plas we had an art session by Ann Thomas, before returning tired but full of exciting new experiences to school.

Gŵyl Sportshall
A team from the school took part in the Sportshall Athletic Event in Dolgellau Leisure Centre. They took part in many track, throwing, javelin and long jump events. Everyone's effort was to be greatly commended.

The Foundation Stage
The pupils have been learning about homes during this term. They visited the village to look at the different types of houses there. They also visited the new houses at Stâd y Wern. Many thanks to Mr Hughes for allowing us to visit.
Mrs Griffiths also came to talk to us about her home many years ago. The pupils enjoyed role play washing clothes in the Victorian home developing the pupils' information and understanding of the world around them.

Cyfarfod Bach
A successful Cyfarfod Bach was held again this year at the Village Hall. All pupils have been busy preparing for the variety of competitions and we are always glad that we can take part in such activities that support the community. It is also a great way to show case the talent we have amongst our pupils.

Dal i Fynd race


Llio, Tesni and Cerys went to Coed y Brenin to take part in the cross country Dal i Fynd race. Cerys had great success receiving a cup and medal for coming 3rd place amongst Year 3 girls. Many congratulations Cerys.

Eisteddfod yr Urdd
Many congratulations to all who took part in the Cylch and Area Eisteddfod. Everyone competed to the best of their ability and we are extremely proud of those who reached the stage—Erin Pennant and Lois reciting, Llio and Lois with their duet, the unison party, choir and reciting party. We are especially proud of Lois Wyn Hughes who will be competing in the Year 3 & 4 solo in the Pembrokshire Eisteddfod at the start of June. Many pupils succeeded in the art and craft competition, Llio Emlyn, Llio Wyn Hughes received second prize for textile work, 2 groups with their Design and Technology work and Huw, Ieuan, Jack and Cerys's artefact will be judged in the national competition.

Pentre Peryglon
Llio Wyn joined pupils from Llanelltyd, Brithdir, Friog and Dolgellau schools to visit Pentre Peryglon in Talacre near Fflint. It was an useful and infromative day and we learned about dangers in various situations such as in the home, in the shop, travelling on the main road, dangers on the beach and in the countryside. Many important messages were provided about safety and how it is possible to avoid accidents by being careful and thinking about keeping ourselves safe.

Science Workshop
KS2 pupils took part in a Techniquest science workshop in Ysgol Machreth. They took part in many activities to help them learn about the planets and electricity through gathering information and solving problems. They made a human circuit and solved electrical problems for various situations.